

RHYBUDD o Benderfyniadau y cyfarfod hybrid o Gyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd Dydd Iau, 7 Mawrth 2024.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Margaret M Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Non Dafydd, Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans, T LI Hughes MBE, Llinos Medi, Aled Morris Jones, Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, G O Jones, R LI Jones, Euryrn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Llio Angharad Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Dafydd Rhys Thomas, Alwen Pennant Watkin, Robin Williams, Sonia Williams, Liz Wood ac Arfon Wyn

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Douglas M Fowlie, John Ifan Jones, Jackie Lewis ac Ieuan Williams.

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol; Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Hefyd yn bresennol: Neb

(2.00 o'r gloch yf - 3.30 o'r gloch yf)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	1. Cofnodion
PENDERFYNIAD	Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod arbennig y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2023 yn gywir.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	2. Datganiad o Ddiddordeb
PENDERFYNIAD	Datganodd y Cynghorydd Sonia Williams ddiddordeb personol gan ei bod yn wraig i'r Aelod Portffolio Cyllid. Datganodd y Prif Swyddogion ddiddordeb personol sylweddol mewn perthynas ag Eitem 12 – Datganiad Polisi Tâl 2024, ac nid oeddent yn bresennol yn ystod y drafodaeth na'r bleidlais ar y mater.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4. Cyflwyno Deisebau
PENDERFYNIAD	Ni dderbyniwyd yr un ddeiseb.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	5. Adolygiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys 2023/24
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr Adroddiad ar yr Adolygiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn ar gyfer 2023/24.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6. Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2024/25
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2024/25.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	7. Strategaeth Gyfalaf 2024 - 2029
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2024/25 i 2028/2029.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	8. Cyllideb 2024/25
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD:- <ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwyo'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/2024. • Derbyn y Penderfyniad drafft ar y Dreth Gyngor a nodir fel (c) ar y Rhaglen.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	9. Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD yn unfrydol i:- <ul style="list-style-type: none"> • Gymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft y Cyngor ar gyfer 2024-2028; • Awdurdodi Swyddogion, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio, i gwblhau a chyhoeddi'r Cynllun erbyn 31 Mawrth 2024.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	10. Adolygu Ardaloedd a Mannau
------------------------	---------------------------------------

	Pleidleisio Ynys Môn
PENDERFYNIAD	<p>PENDERFYNWYD yn unfrydol :-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi canlyniad yr Adolygiad o Ardaloedd a Mannau Pleidleisio; • Bod y cynigion terfynol a nodir yn Atodiad 1 mewn perthynas ag ardaloedd pleidleisio, manau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio'n cael eu cymeradwyo.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	11. Aelodaeth a Chyfansoddiad y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)
PENDERFYNIAD	<p>PENDERFYNWYD yn unfrydol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Addasu enw'r CYSAG i CYS a bod y Swyddog Monitro yn cynnwys ei gylch gorchwyl yng Nghyfansoddiad y Cyngor, yn unol â'r gofyniad cyfreithiol ar gyfer CYS; • Oherwydd bod rhaid i'r awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr aelodaeth, yn gyffredinol, yn gymesur â chryfder pob crefydd, enwad, neu argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn ei ardal leol, bod aelodaeth y CYS yn cynnwys cyfanswm o 9 sedd, yn cynnwys 6 sedd ar gyfer yr aelodau presennol a 3 sedd newydd ychwanegol a benodir ar gyfer cynrychiolwyr o: Dyneiddwyr y DU, Islam a Thystion Jehova; • Cynnal adolygiad pellach, o fewn chwe mis, o'r seddi Cristnogol presennol (ac felly'n eithrio Tystion Jehova o'r ymgynghoriad nesaf) oherwydd sylwadau a wnaethpwyd pan ymgynghorwyd gyda CYSAG a'r ffigyrau sydd wedi dod i law.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	12. Datganiad Polisi Tâl 2024
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD cymeradwyo Datganiad Polisi Tâl y Cyngor ar gyfer 2024/2025.